**Enw'r Ysgol: Sarn Bach** **Cyfeiriad: Sarn Bach, Pwllhei, Gwynedd**

| Addysg Grefyddol |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Wrth graffu ar lyfrau disgyblion gwelir fod gan y mwyafrif o ddisgyblion wybodaeth dda am seremoniau crefyddol a gwyliau sy`n bwysig i Gristnogion a Mwslemiaid. Mae dadansoddiad o asesiadau athrawon yn dangos bod yr rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae arsylwadau athrawon yn dangos bod llawer o`r disgyblion yn gallu trafod materion crefyddol a moesol yn dda.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Dengys gweithgaredd trawsgwricwlwaidd craffu ar lyfrau fod yr rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos sgiliau llythrennedd cyson dda drwy eu gwaith Addysg Grefyddol.
Mae disgyblion yn defnyddio sgiliau TGCh yn hyderus wrth ymchwilio i faterion crefyddol.

**Materion i gael sylw**:

Angen edrych ar y ffordd y mae Addysg Grefyddol yn cael ei gynllunio drwy`r ysgol er mwyn sicrhau dilyniant pendant .

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae gweithgareddau yn cael eu cynllunio yn fwriadus ac o fewn themau os yn bosibl. Cynllunir gweithgareddau ymarferol ac amrywiol yn ogystal ac ymweliadau. Mae ymwelwyr yn cynnal gwasanaethau rheolaidd yn yr ysgol ac mae`r plant yn ymateb yn dda i`r rhain.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
**Datblygi`r medrau meddwl a TGCh yn gyson ac yn rheolaidd drwy amrywiol weithgareddau Addysg Grefyddol. Mae sgiliau llythrennedd yn datblygu yn dda drwy dasgau ysgrifennu estynedig o fewn Addysg Grefyddol.**

**Materion i gael sylw**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Addoli ar y Cyd** |
|---|

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>**Mae disgyblion yn addoli ar y cyd yn ddyddiol. Mae amrywiaeth eang o wasanaethau yn cael eu paratoi sydd yn ymateb i ddigwyddiadau yn y byd. Mae disgyblion yn cael amser i feddwl yn ystod gwsanaethau ac i siarad am unrhyw beth sydd yn gysylltiedig a`r gwasanaeth. Mae`nt yn gwneud hyn mewn ffordd aeddfed . Dysgi`r amrywiaeth o emynau a chanaeon crefyddol i`r disgyblion ac maent yn canu`r rhain yn ystod gwasanaethau .** | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>**Rydym yn y broses o drefnu amserlen fel ysgol ar gyfer gwasanaethau lle mae`r plant yn arwain neu yn cymeryd rhan. Er fod hyn yn digwydd ar adegau teimlwn ein bod angen cysoni`r arfer yma.** | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: Nina Williams (Pennaeth)

Dyddiad: 30/01/18